

Datganiad o Gyfraniad er Budd y Cyhoedd

Coleg Gŵyr Abertawe

Cyfeiriad:
Heol Tycoch
Abertawe
SA2 9EB

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu profiad Addysg Uwch (AU) unigryw, sy'n hwyluso'r pontio rhwng addysg bellach ac addysg uwch. Bwriedir i ddewis a dyluniad rhaglenni fod yn alwedigaethol iawn, yn ymatebol i ddiwydiant ac wedi'u llywio gan gyflogadwydd. Mae agweddau allweddol profiad y myfyriwr yn pwysleisio datblygiad parhaus diwylliant a chymuned AU Coleg Gŵyr Abertawe gyda phrofiad cyson ni waeth beth fo'r drefn freinio neu'r corff dyfarnu. Mae'r dull yn seiliedig ar godi dyheadau a darparu cyfleoedd dysgu unigryw. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu llwybrau dilyniant clir sy'n sicrhau manteision sgiliau a chymwysterau lefel uwch i'r dysgwyr hyn.

Yn unol â hyn, mae'r Coleg yn ceisio gwella cyfleoedd dilyniant, datblygu a chyflogaeth sy'n cyfrannu at les y cyhoedd trwy:

- Hyrwyddo AU mewn sectorau a chymunedau lle mae dilyniant isel ar hyn o bryd
- Mynd i'r afael â meysydd lle mae angen sgiliau lefel uwch ar gyfer cyflogaeth a dilyniant
- Cynnig meysydd arbenigol na chynigir gan Brifysgolion lleol gan roi mwy o ddewis a chyfle i fyfyrwyr
- Cyflwyno cwricwlwm sy'n seiliedig ar alw'r diwydiant, blaenoriaeth a sectorau sy'n datblygu
- Cyflwyno cwricwlwm sy'n berthnasol yn alwedigaethol gyda phwyslais ar gyflogadwydd gan gynnwys y rhai a ystyrir yn draddodiadol fel llwybr academaidd

Grwpiau a Dangynrychiolir mewn Addysg Uwch

Mae'r Coleg yn ystyried bod grwpiau a dangynrychiolir mewn Addysg Uwch yn cynnwys:

Addysg Rhieni - Myfyrwyr nad yw eu rhieni wedi astudio mewn Addysg Uwch o'r blaen

Â'u domisil mewn Ardaloedd o Gyfranogiad Isel neu Amddifadedd Uchel - Myfyrwyr sy'n byw mewn cymdogaethau sydd â chyfranogiad isel mewn addysg uwch a/neu fyfyrwyr sy'n hanu o wardiau a ddiffinnir fel rhai ymhlith y mwyaf difreintiedig.

Myfyrwyr Anabl - Myfyrwyr ag anabledd, wedi'u diffinio gan fyfyrwyr sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Myfyrwyr BME - Myfyrwyr sy'n nodi eu bod yn dod o Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Targedau a Gwaelodlin y Coleg mewn perthynas â Chydraddoldeb Cyfle a Hyrwyddo Addysg Uwch ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mesur yn erbyn gwybodaeth allanol

Bydd y Coleg yn mesur yn erbyn **cofrestriadau myfyrwyr AU HESA yn ôl nodweddion personol** gan ddefnyddio'r set ddata fwyaf cyfredol, gan ddechrau gyda 2017/18. Bydd hefyd yn mesur yn erbyn **cofrestriadau myfyrwyr israddedig AU amser llawn sy'n hanu o'r DU yn ôl nodweddion cyfranogi**. Y cymaryddion penodol fydd: Gwlad y Darparwr AU: Cymru; Lefel Astudio: Israddedig arall; Dull Astudio: Amser Llawn. Mae hyn yn cynrychioli proffil yr Addysg Uwch a ddarperir gan y Coleg o dan ei ddarpariaeth ddynodedig benodol. Mae'r ddau ar gael yn <https://www.hesa.ac.uk/data-and-analysis/students/whos-in-he>. Bydd y Coleg hefyd yn defnyddio data cyfrifiad i fesur cyfrannau'r boblogaeth sy'n nodi eu bod yn dod o grwpiau BME.

Ar gyfer y grwpiau a dangynrychiolir wedi'u nodi mewn AU y mesurau cymharu allanol penodol fydd:

- 1) Addysg Rhieni - % y myfyrwyr sy'n adrodd 'Na' ar gyfer Addysg Uwch rhieni. (Ffynhonnell Data Myfyrwyr: UCAS)
- 2) Â'u domisil mewn Ardaloedd o Gyfranogiad Isel – Nifer a chanran y myfyrwyr sy'n byw mewn cymdogaethau cyfranogiad isel fel y diffinnir gan Polar 4 Quartile 1 - (Ffynhonnell Data Myfyrwyr: Cofnodion Cofrestru'r Coleg)
- 3) Â'u domisil mewn Ardaloedd o Amddifadedd Uchel – Nifer a chanran y myfyrwyr sy'n byw mewn wardiau a ddiffinnir fel bod o fewn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 1 - (Ffynhonnell Data Myfyrwyr: Cofnodion Cofrestru'r Coleg)
- 4) Myfyrwyr Anabl – Nifer a chanran y myfyrwyr sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl - (Ffynhonnell Data Myfyrwyr: Cofnodion Cofrestru'r Coleg)
- 5) Myfyrwyr BME – Nifer a chanran y myfyrwyr sy'n nodi eu bod yn dod o Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig - (Ffynhonnell Data Myfyrwyr: Cofnodion Cofrestru'r Coleg)

Meincnod y Coleg

Bydd y Coleg yn defnyddio carfan blwyddyn academiaidd 2018-19 fel ei linell sylfaen i sefydlu a mesur ei berfformiad mewnol yn erbyn y meini prawf uchod o'r naill flwyddyn i'r llall. Dyma'r garfan gyntaf sy'n astudio ar ddarpariaeth a ddynodwyd yn benodol.

Sefydlu llinell sylfaen gychwynnol yn seiliedig ar y garfan uchod gyda chymhariaeth yn erbyn mesurau allanol a nodir uchod ar gyfer meini prawf 1-5.

Targedau Cofrestru Colegau (llinell sylfaen gychwynnol 18-19)

Rhaid i'r cofrestriadau ar gyfer meini prawf 1-5 fod o leiaf 5% yn uwch na mesurau allanol.

Cofrestriadau ar gyfer meini prawf 1-5 i weld cynnydd o 5% flwyddyn ar ôl blwyddyn

Targedau Canlyniad Coleg (llinell sylfaen gychwynnol 19-20)

Cyrhaeddiad dyfarniad llawn ar gyfer meini prawf 1-5 i fod o leiaf y cyrhaeddiad ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn nodi'r nodweddion hynny.

Cyfle Cyfartal

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i ddarparu a gwella cyfle cyfartal i fyfyrwyr gael mynediad i Addysg Uwch. Mae enghreifftiau o sut mae'r Coleg yn dangos hyn yn cynnwys:

- Cynllun bwrsari addysg uwch sy'n cynnig rhwng £500 a £1,000 y flwyddyn i fyfyrwyr sy'n symud ymlaen i gyrsiau AU amser llawn yn y Coleg. Mae hyn yn cefnogi cyfle cyfartal i fyfyrwyr fel y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel
- Cronfa caledi sy'n helpu myfyrwyr mewn anawsterau ariannol i ymgymryd â'u hastudiaethau. Mae hyn yn cefnogi cyfle cyfartal i fyfyrwyr fel y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel
- Ym mis Mawrth 2018, roedd y Coleg wedi agor Canolfan Addysg Uwch bwrpasol yn ffurfiol ar Gampws Tycoch sy'n hygyrch iawn ac yn darparu amgylchedd cefnogol ac agored gyda diwylliant AU unigryw. Mae hyn yn cefnogi cyfle cyfartal i fyfyrwyr gan gynnwys dysgwyr anabl a'r rhai nad yw eu rhieni wedi astudio mewn AU trwy ddarparu amgylchedd a diwylliant sy'n pontio'r bwlch rhwng addysg bellach ac addysg uwch
- Amserlenni cywasgedig a chyson i ganiatáu cyflogaeth ran-amser ochr yn ochr ag astudio
- Ffocws dysgu ac addysgu wedi'i gefnogi gan arbenigedd Galwedigaethol a Diwydiant staff ynghyd â dosbarthiadau cymharol fach a chymorth astudio
- Swyddogion Cymorth Myfyrwyr sy'n gweithio gyda myfyrwyr mewn AB ac AU i gael gwared ar rwystrau anaddysgol i ddilyniant a chyflawniad. Mae hyn yn

cefnogi dysgwyr o bob grŵp y nodwyd eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU

- Lefelau uwch o gymorth i fyfyrwyr o gymharu ag astudio mewn Prifysgol wrth gyflawni'r un cymhwyster. Mae hyn yn cefnogi dysgwyr o bob grŵp y nodwyd eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU.

Hyrwyddo Addysg Uwch

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i hyrwyddo Addysg Uwch. Mae enghreifftiau o sut mae'r Coleg yn dangos hyn yn cynnwys:

- Digwyddiadau a gweithgareddau yn ymwneud â chodi dyheadau gan gynnwys dangos y buddion i fyfyrwyr o ran enillion uwch posibl a mwy o symudedd cymdeithasol gan gynnwys diwrnodau gyrfaedd gyda chymorth cyflogwyr. Mae hyn yn hyrwyddo addysg uwch fel ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel.
- Digwyddiadau a gweithgareddau yn ymwneud â chodi dyheadau ar gyfer grwpiau penodol gan gynnwys unigolion a oedd yn byw mewn ardaloedd a oedd gynt yn cael eu hystyried yn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae hyn yn hyrwyddo addysg uwch fel ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel.
- Sesiynau blasu AU wedi'u darparu yn y cyfleusterau AU newydd gyda'r nod o gael gwared ar rwystrau a mynd i'r afael â phryderon ynghylch parodrwydd i symud ymlaen. Mae hyn yn cefnogi dysgwyr o bob grŵp y nodwyd eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU.
- Defnyddio cynefindra dysgwyr â thiworiaid a'r Coleg ynghyd â digwyddiadau dilyniant gan gynnwys cludiant o gampysau eraill. Mae hyn yn cefnogi dysgwyr o bob grŵp y nodwyd eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU.

Buddsoddi er Budd y Cyhoedd

Mae'r Coleg yn buddsoddi 16% o'i incwm addysg uwch ar les parhaus y cyhoedd sy'n gysylltiedig â Chyfle Cyfartal a Hyrwyddo Addysg Uwch yn ogystal â'i fuddsoddiad cyfalaf mawr mewn cyfleusterau AU.